# Gweithiwch gyda Rubicon Dance: Ymarferydd Dan Hyfforddiant *DanceforHealth*

**Mae hwn yn gyfle cyffrous i ddatblygu sgiliau arbenigol wrth gyflwyno gweithgareddau dawns o ansawdd uchel ar draws lleoliadau iechyd a chymunedol.**

**Teitl y Swydd:** Ymarferydd Dan Hyfforddiant *DanceforHealth*

**Rhan-amser (21 awr yr wythnos, cyfnod penodol o 4 mis)**

**Dyddiadau'r rôl:** 4 Mai 2026 – 29 Awst 2026

**Wedi'i lleoli yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg**

**Cyflog:** £24,479.00 y flwyddyn pro rata (sy'n cyfateb i £13.45 yr awr, Cyflog Byw Go Iawn)

Bydd yr Ymarferydd Dan Hyfforddiant *DanceforHealth* yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol profiadol *DanceforHealth* Rubicon Dance i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen i hwyluso sesiynau dawns mewn lleoliadau gofal iechyd. Byddant yn cefnogi'r gwaith o greu a chyflwyno gweithgareddau dawns sy'n darparu gweithdai ysbrydoledig i gyfranogwyr, wedi'u teilwra i weddu i alluoedd corfforol a gwybyddol unigol, gan ystyried lles ac anghenion cymorth eraill yn ôl yr angen. Byddant hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant arbenigol, mentora ac ymarfer myfyriol i'w paratoi ar gyfer gyrfa yn y sector cyffrous a chynyddol o ddawns er iechyd.

Mae'r hyfforddeiaeth hon wedi'i chynllunio ar gyfer ymarferydd dawns sydd â phrofiad o ddawns gymunedol ac sy'n barod i ddyfnhau ei sgiliau o fewn cyd-destunau iechyd a lles. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

- Arsylwi ar ac yn cefnogi ymarferwyr *DanceforHealth* profiadol wrth gyflwyno sesiynau i ystod eang o gyfranogwyr.
- Ennill profiad ymarferol mewn lleoliadau'r GIG, gofal cymdeithasol a chymunedol.
- Cymryd rhan mewn dysgu strwythuredig, myfyrio, mentora ac ymarfer dan oruchwyliaeth.
- Ymgymryd â hyfforddiant arbenigol i adeiladu gwybodaeth am gyflyrau iechyd perthnasol, ymarfer diogel, cyflwyno cynhwysol, a dulliau sy'n benodol i'r sector.

Mae hon yn rôl ddatblygiadol, wedi'i chynllunio i ehangu a datblygu gweithlu arbenigwyr *DanceforHealth*.

**Sut i wneud cais:** anfonwch CV a llythyr eglurhaol at info@rubicondance.co.uk

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** 10yb, dydd Mawrth 7 Ebrill 2026

**Cyfweliadau:** 16 Ebrill 2026

Dylai eich llythyr eglurhaol esbonio pam eich bod yn meddwl eich bod chi'n addas ar gyfer y swydd a dangos eich profiad a'ch sgiliau yn unol â Manyleb y Person yn adran Disgrifiad y Swydd. Gallwch gyflwyno hyn ar ffurf ysgrifenedig, trwy fideo neu ffeil sain, neu mewn unrhyw ffordd arall sy'n hygyrch i chi.

Ni ddylai llythyrau ysgrifenedig fod yn fwy na dwy dudalen.
Ni ddylai ceisiadau fideo/sain fod yn hwy na 10 munud.
Os hoffech wneud cais mewn fformat arall, cysylltwch â ni.

Mae Rubicon Dance yn gyflogwr Cyfleoedd Cyfartal ac wedi ymrwymo at wella ei amrywiaeth i adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir ac yn annog yn arbennig unigolion sydd â safbwyntiau a phrofiadau amrywiol i wneud cais.

LAWRLWYTHWCH Y PECYN CAIS A'R DISGRIFIAD SWYDD

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y rôl hon, mae croeso i chi anfon e-bost at Rubicon Dance at info@rubicondance.org.uk, neu ffoniwch 029 2049 1477.